| | |
|---|---|
| CYFARFOD: | **PWYLLGOR ARCHWILIO A LLYWODRAETHU** |
| DYDDIAD: | **27 MAI 2021** |
| TEITL: | **RHAGLEN GYFALAF 2020-21 - ADOLYGIAD DIWEDD BLWYDDYN (SEFYLLFA 31 MAWRTH 2021)** |
| PWRPAS: | **ADRODDIAD MONITRO AR WARIANT AC ARIANNU'R RHAGLEN GYFALAF** |
| GWEITHREDIAD: | **DERBYN Y WYBODAETH, AC YSTYRIED Y RISGIAU YN YMWNEUD Â'R RHAGLEN GYFALAF** |
| SWYDDOG CYSWLLT: | **FFION MADOG EVANS, UWCH REOLWR CYLLID** |
| AELOD CABINET: | **CYNGHORYDD IOAN THOMAS, AELOD CABINET CYLLID** |

---

**1.** Cyflwynwyd yr adroddiad atodol (adolygiad diwedd blwyddyn o'r rhaglen gyfalaf) i'r Cabinet ar 18 Mai ar gyfer penderfyniadau ynglŷn â'r rhaglen ddiwygiedig a'i ariannu.

**2.** Y drefn yn arferol yw ein bod yn cyflwyno'r adroddiad Cabinet i'r Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu, i'w graffu ynghyd â phenderfyniadau perthnasol cyfarfod 18 Mai o'r Cabinet sydd ar y dudalen dilynol.

**3.** Gofynnir i'r Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu nodi'r sefyllfa ac unrhyw risgiau yng nghyswllt rhaglen gyfalaf y Cyngor, ystyried penderfyniad y Cabinet, a sylwebu fel bo angen.

**Atodiadau:**
Taflen benderfyniad Cabinet 18 Mai
Adroddiad Cabinet 18 Mai

**TAFLEN BENDERFYNIAD CABINET CYNGOR GWYNEDD**

| | |
|---|---|
| **Dyddiad y Cyfarfod o'r Cabinet:** | 18 Mai 2021 |
| **Dyddiad y bydd y penderfyniad yn dod i rym** ac y gweithredir arno, oni bai bo'r penderfyniad yn cael ei alw i mewn yn unol ag adran 7.25 o Gyfansoddiad Cyngor Gwynedd | 2 Mehefin 2021 |

## PWNC

Eitem 12: RHAGLEN GYFALAF 2020/21 – ADOLYGIAD DIWEDD BLWYDDYN (SEFYLLFA 31 MAWRTH 2021)

---

## PENDERFYNIAD

Derbyniwyd yr adroddiad ar adolygiad diwedd y flwyddyn (sefyllfa 31 Mawrth 2021) o'r rhaglen gyfalaf.

Nodwyd y gwariant o £27,667,000 ar y rhaglen gyfalaf yn ystod y flwyddyn ariannol 2020/21, fydd yn cael ei ddefnyddio yn y datganiadau ariannol statudol ar gyfer 2020/21.

Cymeradwywyd ariannu addasedig a gyflwynir yn rhan 4 o'r adroddiad, sef:

- £3,000 cynnydd mewn defnydd o fenthyca
- £10,561,000 cynnydd mewn defnydd o grantiau a chyfraniadau
- Dim newid mewn defnydd o dderbyniadau cyfalaf
- £234,000 cynnydd mewn defnydd o gyfraniadau refeniw
- Dim newid mewn defnydd o'r gronfa gyfalaf
- £200,000 cynnydd mewn defnydd o gronfeydd adnewyddu ac eraill

---

## RHESYMAU DROS Y PENDERFYNIAD

Cyfrifoldeb y Cabinet yw cymryd camau, fel bo angen, er mwyn sicrhau rheolaeth briodol dros gyllidebau'r Cyngor (e.e. cymeradwyo trosglwyddiadau sylweddol neu gyllideb ychwanegol) ac er mwyn caniatáu i'r cyfrifon terfynol ffurfiol gael eu cwblhau.

---

## DATGANIADAU O FUDDIANT PERSONOL AC UNRHYW OLLYNGIADAU PERTHNASOL A GANIATAWYD GAN Y PWYLLGOR SAFONAU

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiadau o fuddiant personol na gollyngiadau perthnasol.

---

## UNRHYW YMGYNGHORIADAU A GYNHALIWYD CYN GWNEUD Y PENDERFYNIAD

Ymgynghorwyd â'r Swyddogion Statudol sydd wedi eu cynnwys yn yr adroddiad.

---